

Yr Ystwyll



[Addas yn bennaf ar gyfer mis Ionawr; bydd angen set y Geni]

ARWEINYDD

[Gweddi Agoriadol]

Diolch i Ti, ein Tad Nefol, am gael dod at ein gilydd i'th addoli di. Diolch am gael bod yng nghwmni ein gilydd ac yn dy bresenoldeb Di. Yn y tawelwch, boed i ni dy deimlo'n agos aton ni, wrth i ni dy addoli gyda'n calonnau a'n meddyliau.

[Tawelwch] Amen

EMYN 4 'Mae'r nefoedd faith uwchben'

CYFLWYNIAD

Er bod yr addurniadau Nadolig wedi eu cadw'n ôl yn y cwpwrdd neu'r atig, mae gŵyl y Nadolig yn dal i fod yn agos aton ni. Cawsom gyfle yn ystod y dyddiau/wythnosau diwethaf i ddathlu geni Iesu Grist; dathlu Duw yn dod i'r byd mewn baban bach. Dyna amser cyffrous ydy'r Nadolig bob blwyddyn. Amser i feddwl am y baban Iesu'n cael ei eni yn y stabl ym Methlehem a beth mae hynny'n ei olygu i ni wrth i ni ddiolch i Dduw am anfon Crist i'r byd.

Dwi'n gobeithio eich bod wedi derbyn anrhegion Nadolig! Mae pob un ohonon ni'n hoffi derbyn anrhegion, ond mae plant yn arbennig yn edrych ymlaen at y Nadolig ac am ymweliad Siôn Corn a'i sach yn llawn anrhegion. Efallai eich bod wedi bod yn meddwl am yr anrhegion gawsoch chi pan oeddech chi'n blant? Sut fath o addurniadau oedd gennych chi? Coeden a thinsel? Goleuadau a chanhwyllau? Efallai fod addurniadau papur yn hongian o'r nenfwd?

Mi fydd gan lawer o bobol un o'r rhain yn eu cartref adeg y Nadolig (dangos set golygfa'r geni, neu lun os nad oes gennych chi un). Dyma nhw Mair a Joseff a'r baban Iesu yn y preseb. Dyma'r bugeiliaid, a dyma'r doethion. A fyddai rhywun yn gallu helpu i osod yr olygfa yn ei lle wrth i ni ganu 'I Orwedd Mewn Preseb'?



EMYN 450 'I orwedd mewn preseb rhoed Crëwr y byd'

ARWEINYDD

Meddwl am y doethion a meddwl am y sêr fyddwn ni yn ein gwasanaeth heddiw. Mae 6 Ionawr bob blwyddyn yn ddydd Gŵyl yr Ystwyll; gŵyl i gofio dyfodiad y doethion. Roedd yn rhaid i'r doethion deithio am amser maith i gyrraedd y stabal ym Methlehem. Roedden nhw wedi dod o'r Dwyrain ac wedi teithio drwy'r anialwch ar gefn camelod. Doedd ganddyn nhw ddim map i'w harwain; roeddent yn dilyn y sêr. Ac ar ôl cyrraedd y stabal, dyma nhw'n ymgrymu o flaen Iesu a rhoi anrhegion iddo: aur, thus a myrr.

DARLLENIAD Mathew 2: 1–5, 9–11 (Ymweliad y gwŷr doeth)

ARWEINYDD

Fyddwch chi'n hoffi edrych ar y sêr yn yr awyr ar noson dywyll? Weithiau, mae gormod o oleuadau stryd o gwmpas. Ond os ydych allan yn y wlad, yna mae'n llawer haws gweld y sêr yn disgleirio yn yr awyr. Flynyddoedd yn ôl, doedd dim

cymaint o oleuadau stryd a goleuadau trydan. Roedd hi'n haws gweld y sêr yr adeg hynny, 'ndoedd?

Gall edrych i'r awyr a gweld yr holl sêr ein hatgoffa o ba mor fawr ydy Duw, a'i fod wedi creu yr holl fyd a'r bydysawd. Gadewch i ni wrando ar Salm 8 sy'n sôn am fawredd Duw'r creawdwr. Mae sôn am y sêr yn y salm hefyd.

DARLLENIAD Salm 8 (cyfieithiad Beibl William Morgan)

GWEDDI

Diolch i Ti, O Dad, am y byd hardd rwyd wedi ei greu ar ein cyfer ni;
Diolch am gael edrych allan drwy'r ffenestr a gweld yr awyr;
Awyr sy'n las ar ddiwrnod braf, neu'n llwyd a chymylog ar ddiwrnod gwlyb.
Diolch am gael rhyfeddu at waith dy ddwylo wrth edrych i awyr y nos;
Awyr wedi ei goleuo gan y lleuad a'r holl sêr sy'n disgleirio.
Mae meddwl am dy fyd, Arglwydd, yn gwneud i ni sylweddoli pa mor fawr wyt Ti;
Rwyd ti'n llawer rhy fawr i ni allu deall yn iawn,
Ac eto rwyd yn agos at bob un ohonon ni.
Bydd yn agos aton ni heddiw, Arglwydd, wrth i ni droi atat.
Gan ofyn y cyfan yn enw Crist, a'n dysgodd i weddio:
A chydadrodd Gweddi'r Arglwydd
Ein Tad . . .

EMYN 78 'Tydi sy'n deffro'r adar'

Roedd y doethion wedi bod yn astudio'r sêr yn fanwl. Roedden nhw'n adnabod y patrymau gwahanol yn awyr y nos. A phan gafodd Iesu ei eni, roedden nhw'n gwybod bod seren newydd arbennig yn yr awyr – Seren Bethlehem. A dyma'r seren wnaeth eu harwain at Iesu. Roedd seren arbennig wedi arwain y doethion at rywun arbennig iawn – at Iesu. Roedd y doethion wedi dilyn y seren er mwyn cyrraedd Iesu.

A dyna rydan ni'n ei wneud, yntê? Dydyn ni ddim yn dilyn seren, ond rydyn ni'n dilyn Iesu – yn dilyn ffordd Iesu Grist yn ein bywyd ac yn y byd. Mae Iesu fel seren yn ein harwain ni. Ac fel mae'r sêr a'r lleuad yn goleuo'r noson dywyll, mae Iesu'n goleuo ein bywyd ni.

DARLLENIAD Ioan 8:12, Mathew 5:14–6

ARWEINYDD

Dywedodd Iesu mai ef oedd Goleuni'r Byd a'i fod wedi dod i'r byd i fod yn oleuni i bawb. Yna mae'n mynd yn ei flaen i ddweud bod angen i ni fod yn oleuni yn y byd; i rannu goleuni Crist.

Mae Iesu yn dweud nad oes neb yn goleuo kannwyll ac yn ei rhoi dan fwced. Does dim pwynt yn hynny nag oes? Os ydan ni angen golau, yna rhaid i'r gannwyll neu lamp gael ei rhoi mewn man lle bydd yn gallu goleuo'r holl stafell. Pan mae dilynwyr Crist yn byw ffordd Crist, yn byw yn y goleuni, rydan ni'n helpu i oleuo'r byd.

Ydyn ni'n gallu gweld y sêr yn ystod y dydd? Na – allwn ni mo'u gweld am ei bod yn rhy olau. Allwn ni ddim gweld y sêr chwaith ar noson gymylog gan fod y cymylau'n eu cuddio. Ond mae'r sêr yna yn yr awyr drwy'r adeg, on'd ydyn nhw? Dyna arbennig, yntê?

Hyd yn oed pan nad ydan ni'n eu gweld nhw, mae'r sêr yna. Ond er nad ydyn ni'n gallu gweld sêr rydyn ni'n gwybod eu bod nhw yno. Rydyn ni'n gwybod hynny am ein bod wedi eu gweld ar adeg arall. Felly er nad ydyn ni'n gallu eu gweld drwy'r adeg, mae'r profiad o'u gweld o'r blaen yn pwysleisio eu bod yno.

Mae edrych ar y sêr neu feddwl am y sêr felly yn ein helpu i ddeall Duw ac i ddeall pa mor agos ydy Duw. Dydy Duw byth yn newid, dydy o byth yn ein gadael ni. Mae Duw efo ni drwy'r amser. Ac er na allwn ei weld, rydyn ni yn ei deimlo ac yn gwybod ei fod efo ni.

Fel gwnaeth y doethion ddilyn y seren at Iesu, rydyn ni wedi dilyn Iesu yn ein bywyd, ac rydyn ni'n dal ati i wneud hynny am ein bod yn gwybod ei fod yn ein caru ac yn agos aton ni drwy'r amser.

GWEDDI

Diolch i Ti, Dad nefol, am fod yn oleuni yn ein bywyd.

Diolch am fod yn agos aton ni bob amser.

Helpa ni i fod yn oleuni yn y byd

Gan ddangos goleuni Crist i eraill.

Amen

EMYN 769 'Canaf am yr addewidion'

Y FENDITH

(M.M.W.)

